WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol – **Cyngor Castell-nedd Port Talbot**


Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1721A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Anthony Ford, Gillian Gillett a Colin Davies dan gyfarwyddyd Huw Rees a Derwyn Owen.

# Cynnwys

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf ac mae felly mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig ond gellid cryfhau rhai agweddau ar reolaeth ariannol.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf ac mae felly mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig ond gellid cryfhau rhai agweddau ar reolaeth ariannol 6

- Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllidebu blynyddol ac nid oes ganddo Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyhoeddedig 6
- Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt 7
- Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio 8
- Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy 9
- Mae'r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor 11
- Mae'r Cyngor yn mynd ati mewn modd darbodus lle mae benthyca yn y cwestiwn 11

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Roedd y prosiect yn ceisio asesu cynaliadwyedd sefyllfa ariannol cynghorau yn y tymor byr a chanolig.

2 Roedd hyn yn cynnwys ffocws ar strategaeth ariannol pob cyngor yn ogystal ag adolygu ‘dangosyddion’ ariannol o sefyllfa ariannol pob cyngor mewn perthynas â’r canlynol:

- Perfformiad yn erbyn y gyllideb
- Cyflawni cynlluniau arbedion
- Defnyddio cronfeydd wrth gefn
- Y dreth gyngor
- Benthyca

Arddangosyn 1: ynglŷn â’r Cyngor

Mae’r arddangosyn hwn yn nodi peth gwybodaeth gefndir am gyllideb refeniw net y Cyngor, nifer y staff y mae’n eu cyflogi a gwerth ei asedau sefydlog



**Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn £288m**



**Mae’r Cyngor yn cyflogi tua 6,700 o bobl**



**Roedd asedau sefydlog y Cyngor ar 31 Mawrth 2019 yn £705m**


Ffynhonnell: Cyllideb refeniw 2019-20, Adroddiad gwybodaeth am y gweithlu (niferoedd cyflogeion) 2019-20, Datganiad cyfrifon (asedau sefydlog) 2018-19

3 Fe gynhaliom ni’r asesiad hwn am ein bod wedi adnabod cynaliadwyedd ariannol fel risg i allu cynghorau i sefydlu trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian o ran defnyddio adnoddau. Yn rhannol, cafodd hyn ei oleuo gan brofiadau diweddar rhai cynghorau yn Lloegr, ein gwybodaeth am y sefyllfa ariannol mewn cynghorau yng Nghymru, a’r duedd gyffredinol bod adnoddau ar gyfer llywodraeth leol yn lleihau ar y cyd â galw cynyddol am rai gwasanaethau.

Arddangosyn 2: ffynonellau refeniw’r Cyngor

Mae’r siart cylch isod yn dangos bod y Cyngor yn disgwyl cael £431.9 miliwn o wahanol ffynonellau ariannu yn ystod 2019-20

**Ffynonellau refeniw mewn £m**




Ffynhonnell: Cyllideb 2019-20

4 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019.

## Yr hyn a ganfuom

5 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf ac mae felly mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig ond gellid cryfhau rhai agweddau ar reolaeth ariannol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllidebu blynyddol ac nid oes ganddo Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyhoeddedig;
- mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt;
- mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio;
- mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy;
- mae'r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor; ac
- mae'r Cyngor yn mynd ati mewn modd darbodus lle mae benthyca yn y cwestiwn.

# Adroddiad manwl

## Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gryf ac mae felly mewn sefyllfa dda i reoli ei gynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig ond gellid cryfhau rhai agweddau ar reolaeth ariannol.

### Mae'r Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar gyllidebu blynyddol ac nid oes ganddo Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyhoeddedig

#### Pam fod cynllunio ariannol strategol yn bwysig

6 Mae strategaeth ariannol eglur a chadarn yn bwysig i adnabod y lefel debygol o gyllid sydd ar gael i gyngor, yn ogystal â lefel ddisgwyliedig y galw am wasanaethau a chost eu darparu. O ystyried y pwysau o ran cyllid a fu'n ddiweddar ac a ragwelir ar gyfer yr holl gynghorau mae hefyd yn bwysig nodi sut y mae'n bwriadu ymateb i'r pwysau hynny, ac yn enwedig sut y bydd yn llenwi bylchau a ragwelir yn y cyllid.

#### Yr hyn a ganfuom


7 Canfuom fod y Cyngor wedi gweithredu a'i fod yn dal i archwilio opsiynau i wella'i gydnerthedd ariannol a mynd i'r afael â'r bwlch sylweddol yn ei gyllideb. Fodd bynnag, mae ei ffocws yn bennaf ar gyllidebu blynyddol ac mae gan y Cyngor gyfle i gryfhau ei gynllun ariannol tymor canolig a'r cysylltiadau rhyngddo a chyflawni ei amcanion corfforaethol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor yn diwygio'i gynllun ariannol yn flynyddol ac yn defnyddio hyn i helpu i oleuo'r broses o bennu'r gyllideb refeniw flynyddol. Mae'r cynllun yn nodi amcanestyniadau ariannol tymor canolig y Cyngor yn seiliedig ar dybiaethau darbodus ar gyfer chwyddiant, twf cyllid (gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru) a phwysau ariannol ond dim ond rhai tybiaethau mewn perthynas â newidiadau demograffig a phwysau o ran y galw am wasanaethau y mae'n eu hadlewyrchu.
- nid oes gan y Cyngor Gynllun Ariannol Tymor Canolig cyhoeddedig sy'n nodi'r prif heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, y tybiaethau, yn rhai ariannol a demograffig, sy'n tanategu'r heriau hyn neu gynllunio ar gyfer senarios i ystyried gwahanol bosibiliadau ariannol.
- mae diffyg Cynllun Ariannol Tymor Canolig cyhoeddedig yn golygu nad yw'r cysylltiadau rhwng proses cynllunio strategol ac amcanion corfforaethol y Cyngor ar y naill law a'i broses cynllunio ariannol ar y llaw arall mor eglur ag y gallent fod, a allai rwystro'i allu i wneud penderfyniadau gwybodus a chyson.
- ym mis Chwefror 2019, rhagfynegodd y Cyngor fwlch o ran cyllid o £53 miliwn dros y cyfnod 2020-23. Yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro ar gyfer

llywodraeth leol ar gyfer 2020-21 gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi diweddaru a lleihau'r bwlch hwn a ragamcanir i £32 miliwn dros y 4 blynedd nesaf. Nid yw gwerth y bwlch a ragamcanir yn fanwl gywir gan mai dim ond rhai o'r newidiadau demograffig a phwysau o ran y galw ar wasanaethau y mae'n eu cynnwys a chan ei fod yn adlewyrchu tybiaethau darbodus ar gyfer chwyddiant, twf yn y cyllid a phwysau ariannol.

### Arddangosyn 3: bwlch o ran cyllid a ragamcanir

Mae'r graff canlynol yn dangos y bwlch o ran cyllid y mae'r Cyngor wedi'i adnabod ar gyfer y flwyddyn nesaf, a'r tair blynedd ganlynol.




Ffynhonnell: Cyllideb ddrafft ar gyfer ymgynghori 2020-21

## Mae gan y Cyngor hanes da o ddarparu gwasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt

### Pam ei bod yn bwysig rhagweld gwariant yn gywir

8 Mae'n bwysig bod gorwariant a thanwariant yn cael eu cadw dan reolaeth a bod gwariant gwirioneddol mor agos â phosibl at y lefelau y cynlluniwyd ar eu cyfer. Mae Cyngor sy'n methu â rhagweld gwariant yn gywir a chynllunio'n gywir ar ei gyfer yn wynebu risg o greu pwysau ariannol nas rhagwelwyd a allai beryglu'r gallu i bennu cyllideb fantoledig. Gall patrymau sylweddol o danwariant fod yn lleihau gallu cyngor i gyflawni ei amcanion allweddol neu gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

### Yr hyn a ganfuom

9 Mae gan y Cyngor hanes da o reolaeth ariannol ac mae wedi llwyddo'n gyson i ddarparu ei wasanaethau o fewn cyllidebau y cytunwyd arnynt er bod

gorwariannau mewn rhai meysydd yn cael eu gwrthbwyso gan danwariannau mewn meysydd eraill. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- cyflawnodd y Cyngor danwariant yn ei gyllideb refeniw o £1.08 miliwn yn 2017-18 a sefyllfa fantoledig yn 2018-19.
- mae pwysau a gorwariannau yn y gyllideb wedi digwydd ym maes addysg (cludiant rhwng y cartref a'r ysgol, lleoliadau y tu allan i'r sir), rhai meysydd o fewn gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau amgylcheddol (casglu gwastraff). Fodd bynnag, cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan danwariannau yn y gyllideb mewn meysydd eraill a chyfraddau casglu'r dreth gyngor gwell nag a gyllidebwyd ar eu cyfer.
- roedd adroddiad monitro diweddaraf y gyllideb refeniw (mis 9) yn rhagfynegi tanwariant o £0.06 miliwn ar gyfer 2019-20 ac yn cynnwys nifer o feysydd â gorwariant a thanwariant. O ystyried yr heriau i'r gyllideb a phenderfyniadau anodd cysylltiedig sy'n ei wynebu, bydd angen i'r Cyngor ei argyhoeddi ei hun bod cyllidebau'n gadarn, yn seiliedig ar dybiaethau realistig ac y creffir yn effeithiol ar feysydd lle ceir gorwariant.

#### Arddangosyn 4: swm y gorwariant/tanwariant yn berthynol i gyfanswm y gyllideb refeniw net

Mae'r arddangosyn canlynol yn dangos swm y gorwariant neu'r tanwariant ar gyfer cyllideb refeniw net y Cyngor ar y cyfan am y ddwy flynedd ddiwethaf a hefyd yr alldro rhagamcanol ar gyfer 2019-20 yn ôl y sefyllfa ar 31 Rhagfyr 2019.

| | **Cyllideb Wreiddiol y gyllideb refeniw net** | **Alldro Gwirioneddol y gyllideb refeniw net** | **Swm y gwarged/ gorwariant ar y cyfan** | **Gwahaniaeth canrannol o'i gymharu â'r gyllideb refeniw net** |
|---|---|---|---|---|
| 2017-18 | £274.68m | £273.60m | Gwarged o £1.08m | Gwarged o 0.4% |
| 2018-19 | £282.86m | £282.85m | Gwarged o £0.01m | Gwarged o 0% |
| 2019-20 | £288.17m | £288.11m | Gwarged o £0.06m | Gwarged o 0.02% |

Ffynhonnell: adroddiadau alldro refeniw (2017-18 a 2018-19), adroddiad monitro'r gyllideb refeniw 31 Rhagfyr 2019 (2019-20)

## Mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi cyflawni'r mwyafrif o'i arbedion wedi'u cynllunio

#### Pam fod y gallu i adnabod a chyflawni cynlluniau arbedion yn bwysig

10 Mae'r gallu i adnabod meysydd lle gellir gwneud arbedion ariannol penodol, ac i wneud yr arbedion hynny wedyn, yn agwedd allweddol ar sicrhau cynaliadwyedd ariannol parhaus yn erbyn cefnlen o bwysau ariannol cynyddol. Lle nad yw

cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni gall hyn arwain at orwariannau sy'n golygu bod angen defnyddio cronfeydd wrth gefn cyfyngedig gan gynyddu lefel yr arbedion y mae eu hangen ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol i wneud iawn am hyn. Lle nad yw cynlluniau arbedion yn cael eu cyflawni a lle nad yw'n ofynnol i feysydd gwasanaeth wneud arbedion heb eu cynllunio, mae hyn yn cynyddu'r risg naill ai na fydd arbedion yn gyson â blaenoriaethau'r Cyngor, neu o ddatrysiadau 'byrdymor' nad ydynt yn gynaliadwy dros y tymor canolig.

### Yr hyn a ganfuom

11 Mae gan y Cyngor hanes o fantoli ei gyllidebau ond nid yw wedi cyflawni'r holl arbedion penodol yr oedd yn bwriadu eu cyflawni ac mae tanwariannau mewn cyllidebau wedi cael eu defnyddio i unioni'r diffyg. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi gwneud arbedion gwerth £90 miliwn ers 2010, gan leihau ei weithlu o oddeutu chwarter.
- caiff arbedion eu hadnabod trwy broses o adolygu'r ddarpariaeth gyfredol o ran gwasanaethau a chaiff cynigion eu paratoi yng nghyd-destun amcanion corfforaethol y Cyngor. Ymgynghorir â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ynghylch y rhain ac mae pwyllgorau perthnasol yn craffu arnynt.
- pennodd y Cyngor darged arbedion o £6.79 miliwn yn 2018-19 a £5.80 miliwn yn 2019-20. Caiff arbedion y cytunwyd arnynt eu tynnu allan o gyllidebau ar ddechrau'r flwyddyn a chânt eu monitro trwy broses monitro'r gyllideb. Mae nifer o amrywiannau anffafriol yn y gyllideb wedi cael eu priodoli i ddiffyg cyrraedd targedau arbedion.
- nid yw'r Cyngor yn monitro'r modd y cyflawnir arbedion unigol wedi'u cynllunio. Tybir bod y rhan fwyaf o arbedion yn ystod y flwyddyn yn cael eu cyflawni, ond caiff unrhyw amrywiannau sylweddol eu hamlygu yn adroddiad monitro'r gyllideb bob chwarter ar gyfer Aelodau, ynghyd â'r rhesymau ac unrhyw gamau cywirol sy'n cael eu cymryd. Mae adolygiadau o'r gyllideb fel rhan o bennu cyllideb y flwyddyn ddilynol yn ystyried maint yr arbedion a gyflawnwyd yn ogystal â phwysau o ran y galw a chostau.
- fe bennodd y Cyngor darged arbedion o £5.80 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, sef 2019-20. O ran y sefyllfa ym mis 9, mae'r Cyngor yn dal heb gyflawni nifer fach o'r arbedion hyn. Er bod tanwariannau yng nghyllidebau meysydd gwasanaeth eraill wedi helpu'r Cyngor i gyflawni sefyllfa ariannol ffafriol, o ystyried yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor mae'n bwysig bod targedau arbedion realistig yn cael eu pennu ac yn cael eu monitro i sicrhau eu bod yn cael eu cyrraedd.

## Mae gan y Cyngor lefel iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy

### Pam ei bod yn bwysig rheoli cronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy

12 Mae lefelau iach o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy yn rhwyd ddiogelwch bwysig i ategu cynaliadwyedd ariannol. Yn ogystal â bod ar gael i ariannu pwysau annisgwyl o ran cyllid, gall cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy fod yn ffynhonnell cyllid bwysig i ariannu mentrau ‘buddsoddi i arbed’ sydd wedi’u bwriadu i leihau cost barhaus darparu gwasanaethau hefyd. Mae cynghorau sy’n dangos patrwm o ddefnydd heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn i lenwi bylchau yn eu cyllideb refeniw sy’n arwain at ostyngiadau ym malansau eu cronfeydd wrth gefn yn lleihau eu cydnerthedd i ariannu pwysau cyllidebol nas rhagwelwyd mewn blynyddoedd yn y dyfodol.

## Yr hyn a ganfuom

13 Nid oes hanes gan y Cyngor o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu pwysau yn y gyllideb refeniw ac mae ei lefel o gronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Daethom i’r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae cronfeydd refeniw wrth gefn defnyddiadwy’r Cyngor wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019 roeddent ar lefel o £59.4m, heb gynnwys balansau ysgolion a balansau cyfalaf.
- mae’n ofynnol i’r Cyngor gadw lefel resymol o gronfeydd wrth gefn. O ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2019, roedd y cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn £20.97 miliwn ac yn 7.4% o gyllideb refeniw net y Cyngor.

14 Fodd bynnag, mae heriau a phwysau ariannol yn bodoli ac wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2019-20, roedd y Cyngor yn bwriadu defnyddio £2.255 miliwn o’i gronfeydd wrth gefn cyffredinol i fantoli ei gyllideb refeniw. Mae cyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2020-21 wedi cael ei mantoli trwy ddefnyddio £1.65m pellach o gronfeydd wrth gefn cyffredinol. Er y bydd hyn yn lleihau lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn sydd ar gael i’r Cyngor, rhagfynegir o hyd y byddant yn aros ar lefel resymol.


## Arddangosyn 5: swm y cronfeydd wrth gefn o’i gymharu â’r gyllideb flynyddol, 2018-19

Mae’r arddangosyn hwn yn dangos swm y cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy a oedd gan y Cyngor yn ystod 2018-19 o’i gymharu â’i gyllideb refeniw net ar gyfer yr un flwyddyn.



**£282.9m**

Cyllideb Refeniw Net



**£59.4m**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy



**21%**

Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn Defnyddiadwy fel canran o’r Gyllideb Refeniw Net

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon 2018-19

## Mae'r Cyngor yn casglu cyfran uchel o incwm y dreth gyngor

### Pam fod cyfraddau casglu'r dreth gyngor yn bwysig

15 Bydd methu â chasglu swm y dreth gyngor sy'n ddyledus i'r Cyngor yn arwain at lai o incwm. Gall hyn yn ei dro gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor a'i gwneud yn ofynnol iddo wneud arbedion ychwanegol. Er nad y dreth gyngor yw ffynhonnell cyllid fwyaf cynghorau yng Nghymru, mae'n dal i fod yn ffynhonnell incwm allweddol.

### Yr hyn a ganfuom

16 Mae gan y Cyngor hanes da o gasglu ei dreth gyngor. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae incwm o'r dreth gyngor yn gyfrifol am 17% o gyllid y Cyngor ar y cyfan (25% o wariant net) ac mae'r Cyngor wedi bod yn effeithiol wrth ei gasglu. Mae'r gyfradd adennill wirioneddol wedi bod yn mynd y tu hwnt i'r gyfradd gasglu wedi'i chyllidebu am nifer o flynyddoedd, sydd wedi creu sefyllfa alldro ffafriol ar gyfer y gronfa gyffredinol. Yn 2018-19, roedd y gyfradd adennill wirioneddol yn 98% o'i gymharu â chyfradd wedi'i chyllidebu o 97%, gan greu incwm heb ei gynllunio ychwanegol o £0.657.
- mae cyfradd adennill treth gyngor y Cyngor o 98% yn gyson yn well na'r gyfradd adennill gyfartalog ledled Cymru (97.3% yn 2018-19).

### Arddangosyn 6: cyfraddau casglu'r dreth gyngor

Mae'r arddangosyn hwn yn dangos y ganran o'r dreth gyngor a oedd yn ddyledus a gasglwyd gan y Cyngor yn ystod 2018-19



Roedd yr arian a gasglwyd o'r Dreth Gyngor ar 31 Mawrth 2019 yn **£67.342m** (98%) o'i gymharu â debyd casgladwy o **£68.648m**

Ffynhonnell: ffigyrau StatsCymru ar gyfer treth gyngor yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod bilio 2018-19 (namyn budd-dal y dreth gyngor, gan gynnwys symiau a gasglwyd ar ran awdurdodau heddlu a chynghorau cymuned)

## Mae'r Cyngor yn mynd ati mewn modd darbodus lle mae benthyca yn y cwestiwn

## Pam ei bod yn bwysig cynnal lefelau benthyca cynaliadwy

17 Gall benthyca fod yn ffynhonnell cyllid werthfawr, er enghraifft i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr megis ysgolion neu ganolfannau hamdden newydd. Fodd bynnag, gall cost ad-dalu arian a fenthyciwyd gan gynnwys costau llog gael effaith hirdymor ar gyllidebau refeniw parhaus. Mae cynghorau sy'n methu â tharo cydbwysedd priodol rhwng manteision a chostau benthyca ar y naill law a'u cyllidebau refeniw cyfredol a rhagamcanol ar y llaw arall yn wynebu risg o leihau swm y cyllid sydd ar gael i ddarparu gwasanaethau. Mae benthyca i ariannu gweithgarwch masnachol yn cynnig y potensial i greu incwm ychwanegol i ariannu gwasanaethau'r cyngor; fodd bynnag, gall hefyd ddwyn risgiau sylweddol a fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch masnachol.

Yr hyn a ganfuom

18 Mae'r Cyngor yn mabwysiadu dull darbodus lle mae benthyca yn y cwestiwn, gan gydymffurfio â dangosyddion darbodus ac nid oes unrhyw gynlluniau ganddo i gynyddu ei gostau benthyca'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:


- nid yw'r Cyngor yn benthyca i ariannu unrhyw weithgareddau masnachol; defnyddir arian a fenthycir at ddibenion buddsoddi cyfalaf a gofynion llif arian byrdymor achlysurol.
- mae'r lefel fenthyca ar y cyfan wedi aros yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd yn £283 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gynlluniau i gynyddu hyn yn sylweddol yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld.
- roedd costau cyllid cyfalaf y Cyngor (taliadau llog a'r ddarpariaeth isafswm refeniw) yn 6.8% o'i wariant refeniw net yn 2018-19. Mae'r costau annewisol hyn wedi parhau i fod yn gyfran gymharol sefydlog o wariant refeniw net y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf a rhagwelir y byddant yn cynyddu i 7.1% yn 2019-20.
- yn ogystal â benthyca, mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi arian dros ben i greu incwm buddsoddi ychwanegol. Ar 31 Mawrth 2019, roedd gan y Cyngor fuddsoddiadau o £55.2 miliwn.

## Arddangosyn 7: Arian a fenthyciwyd gan y Cyngor

Mae'r arddangosyn isod yn dangos cyfanswm yr arian y mae'r Cyngor wedi'i fenthyca, yn ogystal â chost yr holl fenthyciadau sydd gan y Cyngor fel cyfran o'i gyllideb refeniw net.



**£283m**



**6.8%**

| Swm y benthyciadau | Cost cyfanswm y benthyciadau fel cyfran o'r gyllideb refeniw net 2018-19 |
| --- | --- |

Ffynhonnell: Datganiad cyfrifon 2018-19

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru